RHIFYN
ISSUE
38
14.05.21

Llais Llantrisant

CASGLU DATA
DATA COLLECTION

Unwaith eto, hoffem atgoffa pawb am y llythyr yma a anfonwyd at bawb fis Rhagfyr. Gofynnir i chi gwblhau'r taflenni casglu data a'u dychwelyd i: data.yggglantrisant@rctcbc.gov.uk cyn gynted ag y bo modd os gwelwch yn dda. Maent yn bwysig iawn ar gyfer rhesymau casglu data a manylion cyswllt.

Once again, we should like to remind everyone of this letter which was sent out in December. We ask that you complete the data collection form and return it to: data.yggglantrisant@rctcbc.gov.uk as soon as possible, please. They are most important for data and contact details purposes.

HMS
INSET

Mae angen i bob ysgol gymryd 6 diwrnod HMS eleni, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, er mwyn parhau gyda'n gwaith o baratoi at Gwricwlwm i Gymru. Gweler isod ein 6 diwrnod HMS eleni.

All schools in Wales are required to take 6 INSET days this academic year, in line with Welsh Government guidelines, to continue with our work of preparing for the new Curriculum for Wales. Please see below our 6 INSET days for this year.

12.04.21
04.05.21
28.05.21
28.06.21
19.07.21
20.07.21

https://bit.ly/32rctDx



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

27.05.21 - Plant yn gorffen ar gyfer gwyliau'r Sulgwyn
Children finish for Whitsun holiday
28.05.21 - Diwrnod HMS - dim ysgol i'r plant
INSET Day - No school for the children
07.06.21 - Dychwelyd ar gyfer yr hanner tymor olaf
Children return for the final half term
28.06.21 - Diwrnod HMS - dim ysgol i'r plant
INSET Day - No school for the children
16.07.21 - Diwrnod olaf y flwyddyn i'r plant
Last day of the year for the children

LLONGYFARCHIADAU
CONGRATULATIONS

Da iawn wir i'r 4 seren hyn ar ennill rownd rhanbarthol y Cwis Llyfrau eleni. Bydd y tîm yn cystadlu nesaf yn y rownd genedlaethol cyn diwedd Tymor yr Haf.

A big 'well done' to these 4 stars having won the regional round of the Book Quiz this year. The team will next compete in the national round before the end of the Summer Term.





LLWYDDIANT TU FAS I'R YSGOL
SUCCESS OUTSIDE SCHOOL

Llongyfarchiadau mawr i JB ac AH wrth iddynt gael eu dewis i chwarae criced fel rhan o dîm datblygu criced Cymru o dan 12. Da iawn chi!

A big congratulations to JB on and AH on being selected to be part of the U12 Welsh Development Cricket squad.



CYFARFODYDD CYNNYDD TYMOR YR HAF
PROGRESS MEETINGS

Fe'ch hysbyswyd yn ddiweddar (Llais Llantrisant 36) am ein bwriad o gynnal nosweithiau agored rhithiol cyn diwedd y flwyddyn. Rydym yn aros i'r cwmni fydd yn cynnig y gwasanaeth yma i ni i ddod nôl atom gan fod ychydig o broblemau technolegol! Felly, byddwn mewn cysylltiad cyn gynted ag y bo modd gyda rhagor o fanylion.

We recently informed you (Llais Llantrisant 36) of our intention to hold virtual online open evenings before the end of this year. We are waiting for the company which will be providing this service to get back to us following a few technical hitches! So, we shall be in touch with further information as soon as possible.

Y GRhA - DIOLCH!
THE PTA - THANK YOU!



Mawr yw ein diolch i'r GRhA a'r holl rieni sydd wedi cefnogi digwyddiadau yn ddiweddar. Anodd iawn oedd y dasg o godi arian yn ystod y pandemig ond dyfal donc a dyrr y garreg! Daeth COMCEN i'r ysgol yn ddiweddar i ffitio dwy sgrîn rhyngweithiol newydd yn y cabanau. Ariannwyd un o'r sgrîns hyn gan y GRhA a'r llall trwy gyllideb yr ysgol.

Many thanks to the PTA and all the parents who have supported recent events. The fundraising task during the pandemic was very difficult but the PTA succeeded! COMCEN came to the school recently to fit two new interactive screens in the cabins. One of these screens was funded by the PTA and the other through the school budget.